LC1469

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

# Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cwn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

Mae Pennod 1 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005 ("Deddf 2005") yn galluogi awdurdodau i wneud gorchmynion rheoli cwn mewn perthynas â thir yn eu hardal sydd yn agored i’r awyr (yn ddarostyngedig i fod unrhyw dir wedi’i eithrio drwy orchymyn a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru). Mae’r Rheoliadau hyn yn rhagnodi’r gweithdrefnau sydd i’w dilyn gan yr awdurdodau pan maent yn gwneud, yn amrywio neu yn dirymu gorchmynion rheoli cwn a hefyd yn rhagnodi cynnwys gorchmynion o’r fath.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliad 7(1) yn rhagnodi tramgwyddau at ddibenion adran 55(4) o Ddeddf 2005. Mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio’n gywir at adran 55(4) o Ddeddf 2005 ond mae’r testun Saesneg yn cyfeirio at adran 55. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn erthygl 4 o Ffurf y Gorchymyn a nodir yn Atodlen 3, dylai’r croesgyfeiriad at erthygl 4 fod yn groesgyfeiriad at erthygl 3. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw’r rhain sy’n addas i’w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Efallai yr hoffai Aelodau nodi Gorchymyn Rheolaethau ar Gwn (Heb Fod yn Gymwys i Dir Dynodedig) (Cymru) 2007 a wneir ar y cyd â'r Rheoliadau hyn.

Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau am y pwyntiau fformadu sy'n addas i'w cywiro wrth eu cyhoeddi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 27 Chwefror 2007